**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC 19-00 (Cofnodion)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 13 Rhagfyr 2000 |
| **Amser** | 2.00-5.30pm |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. |

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | (Etholaeth) |
|---|---|
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | De Ddwyrain Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | De Ddwyrain Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Allan Moss | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Steve Phillips | Yr Is-adran Polisi Economaidd |

| | |
|---|---|
| Gareth Edwards | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Helen Usher | Cyn Glerc y Pwyllgor Datblygu Economaidd |

**Cyfranwyr Allanol**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Steven Hill | Prifysgol Morgannwg |
| Hillary Hendy | WDA |
| Ken Poole | PricewaterhouseCoopers |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Ron Davies AC.

**Eitem 1 - Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Ymddiheurodd am fod rhai o'r papurau wedi eu dosbarthu'n hwyr iawn ac yn enwedig EDC-18-00(p12) oddi wrth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar arian cyfatebol. Dywedodd ei bod o'r farn bod hwnnw'n bapur pwysig iawn a theimlai y byddai'r Pwyllgor yn awyddus i'w weld cyn y Nadolig yn hytrach na disgwyl. Cytunodd yr aelodau â'r farn hon.

2. Cododd hefyd fater amseriad adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Dywedodd y câi hwn ei baratoi'n hwyrach na phapurau eraill er mwyn iddo fod mor gyfoes â phosibl. Fodd bynnag, golygai hynny nad oedd yn bosibl ei ddosbarthu bedwar diwrnod gwaith cyn y cyfarfod a hoffai gael cadarnhad gan yr aelodau eu bod yn fodlon ar hyn. Nododd yr aelodau eu bod yn fodlon i'r papur hwn gael ei ddosbarthu ychydig cyn cyfarfod y Pwyllgor fel y gallai fod yn gyfoes.

**Eitem 2 - Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ei adroddiad. Nododd y câi'r ffigurau diweithdra eu rhyddhau'r un pryd â chyfarfod y Pwyllgor a gallai felly ychwanegu, ar lafar, fod diweithdra, o'i gymhwyso'n dymhorol, wedi gostwng o bum cant rhwng Ebrill a Hydref eleni. Bu gostyngiad mewn cyflogaeth hefyd o bedair mil rhwng Mai a Gorffennaf. Nid oedd y naill ffigur na'r llall o bwys ystadegol.

2.2 Cyfeiriodd at y colledion swyddi a gyhoeddwyd yn ddiweddar yng ngwaith Vauxhall yn Luton a dywedodd ei fod yn ymchwilio i'r effaith a gâi hynny ar y cyflenwyr yng Nghymru. Yn benodol, yr oedd yn bryderus ynghylch yr effaith ar gynhyrchu dur yn Shotton a Port Talbot. Cyfeiriodd at Gyflymu Cymru a oedd wedi ei sefydlu i gadw golwg ar faterion cyflenwi yn y sector cerbydau modur yng Nghymru. Dywedodd ei fod yn ymchwilio i'r holl faterion hyn ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl y Nadolig. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

2.3 Ymhellach i'w adroddiad, dywedodd y byddai'n cyfarfod ag ALCAN ar ôl y Nadolig.

2.4 Yn y drafodaeth, gwnaethpwyd nifer o sylwadau:

- Gresynai'r aelodau at effaith y colledion swyddi yng ngwaith Vauxhall ar y gadwyn gyflenwi ac yr oedd yn bwysig iddynt fod popeth posibl yn cael ei wneud i helpu. Ailddatganodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ei fod yn ymchwilio i'r mater yn ofalus iawn, yng nghyd-destun Cyflymu Cymru, ac y byddai'n adrodd yn ôl mor fuan â phosibl . **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
- Mynegwyd pryder hefyd ynghylch effaith y cau hwn ar Corus, yn enwedig o ystyried yr adroddiadau ynghylch gorgynhwysedd yn y diwydiant dur. Dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y byddai'n edrych hefyd ar y marchnadoedd yn y DU ac Ewrop. Adroddai ymhellach i'r Pwyllgor pan fyddai canlyniadau ganddo. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

Yr oedd pryder hefyd ynghylch ALCAN ac awgrymwyd y dylid ymdrechu i helpu i ddiogelu swyddi pobl iau yno. Un modd posibl i wneud hynny fyddai gwneud unrhyw becynnau diswyddo'n fwy deniadol i bobl hn.

- Bu rhywfaint o drafodaeth am ddatblygu twristiaeth yn y Cymoedd mewn ymateb i ddyfarnu statws treftadaeth y byd i Flaenafon. Nododd yr aelodau y byddai angen ystyried materion ehangach fel llety yn yr ardal a chyfleusterau bwyta, er mwyn amlhau'r manteision. Mynegwyd y farn hefyd gan yr aelodau y gallai ardaloedd eraill ledled Cymru elwa i'r un graddau o ddiddordeb cynyddol mewn treftadaeth ddiwydiannol. Nodwyd mai'r angen oedd strategaeth i Gymru gyfan i fanteisio ar bosibiliadau twristiaeth.
- Cyfeiriodd yr aelodau at y Gweithdai Gwell Rheoleiddio a gofyn a oedd y rhain yn seiliedig ar yr un partneriaethau â Chyswllt Busnes. Dywedodd y swyddogion eu bod yn

gwbl ar wahân a'u bod wedi eu sefydlu ers cryn amser i asesu'r lefel gyffredinol o reoleiddio a wynebir gan fusnes a sut y teimlai busnes am hynny. Penodwyd ymgynghorydd i helpu i fesur y sefyllfa. Ni fu'r partneriaethau'n llwyddiannus iawn hyd hynny a gobeithiwyd y gellid eu hailwampio a'u hadfywio. Nodwyd mai awdurdodau lleol oedd yn rhedeg y partneriaethau a'u bod wedi eu sefydlu i fod o gymorth i ymgynghori â busnes. Dywedodd y swyddogion hefyd eu bod yn gweithio ar wefan i ddarparu gwybodaeth ar faterion rheoleiddiol i fusnes a gysylltid maes o law â Chyswllt Busnes. Croesawodd yr aelodau'r ymdrechion i adfywio'r fenter hon ond nodasant ei bod yn bwysig strwythuro gweithdai o'r math hwn er mwyn cael atborth adeiladol oddi wrth fusnesau. Awgrymwyd y byddai Siambr Cymru a chlybiau busnes yn gyfranogion pwysig yn y broses.

2.6 Cyfeiriodd aelod at daith fasnach Masnach Ryngwladol Cymru i Tsieina y bu'n gysylltiedig â hi. Dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai modd i'r daith fasnach ddatblygu'r cysylltiadau a sefydlwyd eisoes. Nododd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y byddai Rhodri Morgan yn mynd ar y daith fasnach hon ac, os byddai'r aelod yn rhoi manylion iddo, y byddai'n eu trosglwyddo.

2.7 Yn olaf, gan ddod i derfyn ei adroddiad, nododd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y byddai Stephen Phillips yn symud ymlaen cyn hir i waith arall o fewn y Cynulliad Cenedlaethol a dymunai roi ar gof a chadw ei ddiolch iddo am ei waith fel pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd. Yna diolchodd y Pwyllgor i Stephen Phillips am ei waith a dymuno'r gorau iddo yn ei swydd newydd.

**Eitem 3 - Cymhorthion Gweithredu**

3.1 Wrth gyflwyno ei bapur, dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd nad gwaith hawdd o gwbl oedd datblygu cymhorthion gweithredu i'w defnyddio yng Nghymru. Dywedodd mai llugoer ar y gorau fyddai'r ymateb oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ac yr oedd angen ei argyhoeddi bod cymorth o'r math hwn, yn hytrach na chymorth grant, yn holl bwysig i adfywio economi Cymru. Yn ei farn ef, y flaenoriaeth gyntaf oedd llunio dadleuon cadarn amddiffynadwy i'w cyflwyno i'r Comisiwn ac, ar ôl gwneud hynny, ceisio gwneud cynnydd tuag at gytuno ar raglen mor fuan â phosibl.

3.2 Pwysleisiodd y byddai angen argyhoeddi'r Trysorlys, yn ogystal â'r Comisiwn Ewropeaidd, lle'r oedd y defnydd o fesurau'n cynnwys liferi sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cynulliad. Pwysleisiodd fod cyflwyno'r achos cywir yn holl bwysig er mwyn llwyddo ac i wneud hynny y byddai angen gweithio gyda rhanbarthau Amcan 1 eraill y DU yn ogystal â derbyn cyngor gan ymgynghorwyr. Teimlai fod lle i obeithio oherwydd credai fod arwyddion oddi wrth Lywodraeth y DU y gallai fod yn bosibl cael rhywfaint o hyblygrwydd mewn polisïau cyllidol.

3.3 Mynegwyd pryder gan aelod fod oedi wrth gyflwyno cynigion ar gyfer cymhorthion

gweithredu'n golygu ein bod wedi methu'r cyfle. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hynny'n wir – yr angen allweddol oedd datblygu achos cadarn yn sail i'r ddadl dros eu cyflwyno.

3.4 Mynegodd yr aelodau eu cefnogaeth i'r Gweinidog yn ei ymdrechion i sicrhau cymhorthion gweithredu i Gymru er y mynegwyd pryder gan un aelod ynghylch yr amser a gymerid i sicrhau canlyniadau. Wrth grynhoi, pwysleisiodd y Cadeirydd mor bwysig oedd cymorth i gynnal Ymchwil a Datblygu, yr oedd y ffigurau cyfredol amdano'n dangos ehangu ar y bwlch rhwng Cymru a'r DU. Nodwyd hefyd y dylai lleihau costau cyflogaeth fod yn flaenoriaeth. Wrth derfynu, ailddatganodd yr aelodau eu cefnogaeth lwyr i'r Gweinidog yn y maes hwn.

**Eitem 4 – Adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol.**

**Detholedd Sectoraidd**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Stephen Hill o Brifysgol Morgannwg a gyflwynodd ei bapur ar Ddetholedd Sectoraidd. Dywedodd, er nad oedd modd dewis enillwyr, ei bod yn bosibl, yn ei farn ef, ddynodi'r mathau o nodweddion ac amgylchedd y gellir disgwyl iddynt arwain at lwyddiant. Bydd y rhain yn cynnwys pethau fel cyfathrebu gyda'r gorau yn y byd, cyflenwyr cystadleuol, cyrff sydd yn seiliedig ar wybodaeth a gweithwyr eangfrydig a hyblyg. Fodd bynnag, bydd angen newid yn y strwythurau economaidd o hyd oherwydd ffactorau fel technoleg, newid yn yr hyn sydd orau gan gwsmeriaid. a.y.b., a bydd costau yngln â newidiadau bob amser. Mae rhan bwysig i newid strwythurol mewn unrhyw gynllun ar gyfer ail-dwf ond mae'n holl bwysig wedyn droi'r syniadau'n weithredu.

4.2 Yn y drafodaeth nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Rhaid inni edrych ar ein cryfderau ar sail ein diwylliant, ein daearyddiaeth a'n hanes a defnyddio'r rhain fel man cychwyn mewn unrhyw symud tuag at ddetholedd sectoraidd. Mae ymchwil a datblygu'n holl bwysig i unrhyw lwyddiant ac mae Cymru ar ôl yn hyn o beth. Fel gwlad fach rhaid inni flaenoriaethu a defnyddio adnoddau'n ddoeth. Un dull o weithredu yw gofyn ym mhle y mae'r arbenigedd yng Nghymru ac ym mhle y mae'r posibiliadau ar gyfer marchnadoedd. Rhaid inni wedyn ddod o hyd i'r cysylltiad rhwng y rhain er mwyn dynodi'r sectorau i ganolbwyntio arnynt.
- Yn Iwerddon, ac mewn llawer o wledydd bach llwyddiannus eraill, adeiladwyd llwyddiant economaidd drwy ddynodi sectorau twf i ganolbwyntio arnynt.
- Mynegwyd pryder gan un aelod, pe cyfyngid buddsoddi i sectorau penodol, y byddai hynny'n cau allan y syniadau yn y dyfodol a ddeuai o ymchwil 'awyr las'. Dim ond un rhan o'r strategaeth a ddylai hybu detholedd sectoraidd. Mae arnom angen dull gweithredu deudrac sydd yn cynnal sectorau twf posibl ac arloesedd yn fwy cyffredinol. Yr oedd yn bwysig adolygu unrhyw strategaeth yn rheolaidd.

- Nododd y Gweinidog ei bod yn holl bwysig peidio â bod yn rhy benodol. Yr oedd angen diffinio sectorau'n fras, fel Ynni Adnewyddadwy, a bydd yn bwysig bod yn eofn wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Nododd un aelod fod dau ddewis, sef un ai dynodi sectorau neu beidio â gwneud hynny. Gan nad oes polisi dethol ar hyn o bryd, ni all dewis dynodi sectorau fod yn waeth na'r sefyllfa bresennol. Rhaid inni beidio â gwingo rhag ofn methu, ond rhoi cynnig arni o leiaf.
- Nododd aelod arall mai'r rhai gorau i ddynodi sectorau llwyddiannus oedd buddsoddwyr y sector preifat. Gallent ddynodi tueddiadau yn y farchnad ac yr oedd arnynt angen cymorth fel y gallent eu dilyn. Rôl y Cynulliad yw creu'r amodau cywir lle y gall busnes weithredu'n llwyddiannus.

**Adolygiad o Ganolfannau Galw**

4.3 Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd Hillary Hendy o'r WDA a Ken Poole o PricewaterhouseCoopers i gyflwyno eu papur ar Ganolfannau Galw. Gofynnwyd am y papur hwn gan y Pwyllgor mewn ymateb i bryder ynghylch twf cyflym y sector hwn.

4.4 Soniodd Hillary Hendy am yr amgyffrediadau ynghylch canolfannau galw, yn enwedig mewn perthynas â thâl ac amodau gwael. Dywedodd fod llawer o amrywiadau rhwng hynny a'r canolfannau galw lefel uwch sydd yn ymdrin â diagnosteg, cyngor cyfreithiol, gwasanaethau ariannol, a.y.b., ac mai'r rhain bellach yw'r maes twf.

4.5 Disgrifiodd Ken Poole y model a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Archwiliad Canolfannau Galw a dywedodd eu bod wedi gweithio'n agos â Chymdeithas y Canolfannau Galw. Er bod y diwydiant yn bwriadu buddsoddi ymhellach, un rhwystr fyddai argaeledd medrau. Gan fod Cymru wedi dod i'r sector hwn yn hwyr, bu tuedd inni ennill rhai o'r diwydiannau mwy soffistigedig fel telathrebu a gwasanaethau ariannol. Ychwanegodd mai un o amcanion allweddol y cwmnïau hyn oedd cadw cwsmeriaid yn hytrach na chostau is ac yr oeddent yn fwy sefydlog at ei gilydd oherwydd hynny. Hefyd, er bod cyfradd 'troi allan' uchel gan rai canolfannau galw, mae'r hyfforddiant a ddarperir gan y cwmni yn golygu y bydd gweithwyr yn dychwelyd i'r gweithlu gyda medrau gwasanaethu cwsmeriaid a thechnoleg gwybodaeth da.

4.6 Yn y drafodaeth gyffredinol codwyd y pwyntiau canlynol:

- Y canolfannau galw sydd yn fwyaf tebygol o dyfu yw'r rhai sydd yn defnyddio technoleg a hwylusir gan y We ac mae canran uchel o'r rhain yng Nghymru. Ni ddylid ystyried technoleg yn fygythiad ac mae cwmnïau'n buddsoddi'n awr i oresgyn hynny.
- Lleolir canolfannau galw yn ôl demograffeg yn gyntaf, ac wedyn argaeledd medrau. Gwelir amlieithrwydd yn fedr pwysig i ddenu cwmnïau holl-Ewropeaidd ac yr ydym ar ôl yn y maes hwn.
- Y dosbarthiad cyflogaeth yn ôl rhyw yw tua 40% o ddynion a 60% o fenywod. Mae'r genhedlaeth newydd o gyflogwyr yn awyddus i gael amrediad o ran rhyw ac oed.

- Mae mentrau recriwtio a darparu lle yn bwysig, denwyd Cable & Wireless a Manpower i Gymru am fod yr adeiladau iawn ar gael ar y pryd.
- Mynegwyd pryderon ynghylch materion Iechyd a Diogelwch a'r ffaith y gallai costau llafur isel ar y dechrau arwain at gwmnïau'n tynnu allan pan gynyddai'r costau. Mae'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch yn edrych ar y maes cymharol newydd hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gan fod safon y cwmnïau newydd yn uwch bellach, maent yn fwy ymwybodol o safonau. Mae mater costau llafur yn berthnasol oddi mewn i sectorau ac mae'r WDA yn ffyddiog nad yw'r canolfannau galw presennol yn debygol o ddadfuddsoddi ohewydd costau llafur yn unig.

4.7 Wrth grynhoi, diolchodd y Cadeirydd i'r WDA ac i PricewaterhouseCoopers am y papur a oedd wedi ysgogi trafodaeth ddiddorol iawn. Yr oedd y Pwyllgor wedi ei siomi o'r ochr orau o weld ei fod yn sector yr ymddangosai ei fod yn dod â swyddi da i Gymru. Yr oedd yn bwysig bod bodolaeth strategaeth i ddarparu hyfforddiant ac adeiladau wedi dylanwadu ar hynny. Wrth ddatblygu strategaeth yn y dyfodol i ddenu canolfannau galw, dylai'r Pwyllgor argymell cynnwys Cyngres Undebau Llafur Cymru a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, mae'n bwysig ein bod yn denu diwydiannau o ben uchaf y farchnad.

**Diwydiannau Creadigol**

4.8 Rhoddwyd ystyriaeth gan y Pwyllgor wedyn i adroddiad y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl 16 'Diwylliant yn Gyffredin'.

4.9 Mewn trafodaeth fyr canolbwyntiwyd ar oblygiadau ehangach yr adroddiad, gyda golwg arbennig ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Mewn llawer rhan o Gymru mae diwylliant a'r celfyddydau'n elfen bwysig yn yr economi a chydnabyddir yr angen i ystyried y manteision ehangach sydd i hynny.
- Yn achos ardaloedd twristiaeth yr oedd diwylliant yn bwysig i ddatblygu economaidd gan ei fod yn gymorth i ddenu pobl i Gymru. Mae rhan bwysig i'r celfyddydau mewn adfywio cymunedol.
- Ategodd y Pwyllgor argymhellion cyffredinol yr adroddiad a phwysigrwydd diwydiannau creadigol yn economi Cymru. Cydnabuwyd bod angen trafodaeth bellach ar y sector hwn..

4.10 Wrth grynhoi'r drafodaeth ar ddetholedd sectoraidd, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn cytuno mewn egwyddor â thargedu sectorau gan bwysleisio'r angen i ddatblygu ein cryfderau er mwyn cael mantais gystadleuol. Byddai'n bwysig llunio strategaethau i sectorau penodol gan roi lle o hyd i syniadau a sectorau newydd. Cynigiwyd, er mwyn ystyried y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol yn fanylach, a sicrhau ei bod yn barod ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar 7 Chwefror 2001, y dylid sefydlu is-bwyllgor er mwyn delio â'r

broses. Byddai hwn yn cynnwys Val Feld, Mike German, Phil Williams ac Alun Cairns. Cefnogwyd hyn gan yr aelodau ac yr oeddent yn fodlon cael ond un aelod o bob plaid yn bresennol. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 19 Rhagfyr 2000 i ystyried y pwyntiau pwysig a dod â hwy'n ôl i'r Pwyllgor. **[Cam Gweithredu: Y Clerc}**

**Eitem 5 - Adolygiad o gymorth a datblygu busnes**

5.1 Wrth gyflwyno'r eitem, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio y byddai modd iddynt gwblhau'r adroddiad ar ôl y cyfarfod hwn ac, os âi popeth yn iawn, gael cyfieithiad ohono erbyn diwedd yr ail wythnos yn Ionawr. Byddai hyn yn arwain at ei gyhoeddi, ei gylchredeg i'r pwyllgorau eraill, ac at ddadl mewn Cyfarfod Llawn cyn lansio ymgynghoriad dau fis o hyd.

5.2 Dywedodd ei bod wedi rhoi ystyriaeth i'r sylwadau a fynegwyd ers y cyfarfod blaenorol. Yng ngolwg y ffaith bod yr adroddiad yn rhy swmpus, yr oedd hi a'r Clerc wedi helaethu'r 'crynodeb gweithredol' fel y gallai sefyll ar ei ben ei hun fel prif adroddiad y Pwyllgor. Dyma oedd sylfaen y drafft a oedd o'u blaen. Yr oedd gwaith i'w wneud o hyd ar gwblhau'r atodiadau a byddai'r prif adroddiad ar gael fel papur atodol os gofynnir amdano.

5.3 Bu rhywfaint o drafod ar bwyntiau a godwyd ar ôl y cyfarfodydd diweddar â chyrff allanol a daethpwyd i'r canlyniadau canlynol:

- Teimlai'r aelodau, er mwyn darparu ar gyfer newid posibl yn yr enw, y byddai o gymorth defnyddio'r term Cyswllt Busnes o fewn yr adroddiad mewn cysylltiad â'r corff presennol yn unig a defnyddio ymadrodd arall, fel Swyddfa Gweithredu Busnes, i gyfeirio at y "fynedfa gyffredin" i gymorth busnes.
- Dylai'r cyfeiriad ym mharagraff 5.32 at ymgynghori ddatgan yn eglur bod angen i hynny fod "ar lefel ranbarthol". Dylai'r lefel ddaearyddol briodol ar gyfer hynny fod yn gwestiwn yn y rhestr o bwyntiau ar gyfer ymgynghori.
- Y WDA, fel yr asiantaeth allweddol ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru, oedd y corff priodol i oruchwylio'r fynedfa gyffredin, ond ni ddylai geisio darparu'r gwasanaethau ei hun.
- Dylai'r strwythur rhanbarthol ar gyfer corff y fynedfa gyffredin gynnwys cynrychiolwyr hefyd o'r sector amaethyddol.
- Dylai'r cwestiwn ynghylch sefydlu Ombwdsmon i ymchwilio i broblemau a gaed wrth ddarparu cymorth busnes fod yn un o'r eitemau ar y rhestr o faterion ar gyfer ymgynghori. Nododd yr aelodau, er mai'r sythwelediad oedd y dylai hyn ffitio i ran monitro'r system newydd arfaethedig, ei bod yn bwysig na châi ei wreiddio ynddi i'r fath raddau fel y collai ei annibyniaeth.
- Yr oedd amheuon gan un aelod ynghylch ai priodol, ar ôl sefydlu rôl y Cynulliad fel un a ganolbwyntiai ar bolisi, oedd iddo gadw cyfrifoldeb dros Fasnach Ryngwladol Cymru a

ddarparai gyngor ar allforion. Ar ôl trafodaeth, cytunodd yr aelodau y dylai'r argymhelliad i adael hynny o fewn y Cynulliad Cenedlaethol aros, ar yr amod y byddai ymrwymiad i adolygu Masnach Ryngwladol Cymru maes o law. Cytunwyd mai un o'r cwestiynau y dylid eu gynnwys yn yr ymgynghoriad oedd beth yn union yr oedd ar fusnes ei angen o ran cymorth i allforio.

5.4 Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n awr yn newid yr adroddiad er mwyn rhoi ystyriaeth i'r sylwadau a wnaethpwyd. Dywedodd y dylai'r aelodau roi iddi unrhyw sylwadau pellach a oedd ganddynt erbyn dydd Llun 18 Rhagfyr. **[Cam Gweithredu: Aelodau'r Pwyllgor]**

**Eitem 6 - Cronfeydd Strwythurol**

6.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am y papurau ar gronfeydd strwythurol a chyflwynodd y papur hwyr ar arian cyfatebol Amcan 1. Rhoddodd wybod i'r aelodau fod copi o adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen Amcan 1 wedi ei anfon atynt ond nad oedd i'w drafod tan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglen. Cynigiodd Christine Chapman roi adroddiad ffurfiol, fel Cadeirydd y Pwyllgor Monitro, yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Bydd hynny ochr yn ochr ag adroddiadau rheolaidd ar Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gan John Clark. **[Cam Gweithredu: Christine Chapman, Y Clerc]**

6.2 Cyflwynwyd y papur ar Arian Cyfatebol gan Dr. Hugh Rawlings, a wahoddodd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

6.3 Canolbwyntiai'r drafodaeth wedyn ar y papur ar arian cyfatebol a rhoddwyd esboniad ar y pwyntiau canlynol:

- Cyfeiriai paragraff 4.2 o'r papur at y blaenoriaethau ar gyfer arian cyfatebol a'r cyrff yr oedd adnoddau ar alw iddynt gyntaf. Mynegid hyn yn nhermau'r corff noddi yn hytrach na'r corff a oedd yn cyflawni'r prosiect.
- Yr oedd goblygiad ym mharagraff 5.5 y byddai Arian Cyfatebol yn gymaint ag arian Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid oedd hynny'n wir o reidrwydd oherwydd gellid codi'r elfen arian cyfatebol o nifer o ffynonellau gydag ond swm bach o gyllideb arian cyfatebol y Cynulliad. Gallai'r cyfanswm fod yn gymaint â'r swm yn y cynnig gwreiddiol, ond pwysleisiwyd na ellid ei gynyddu i wneud iawn am unrhyw ostyngiad yn arian Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

6.4 Cyfeiriodd un aelod at Atodiad A yn y papur ar y diweddaraf am Amcan 1 a gofynnodd pa bryd y câi'r Pwyllgor wybod bod y gwariant wedi digwydd. Rhoddodd John Clark wybod y bydd adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Monitro Rhaglen ac y byddant yn y maes cyhoeddus.

6.5 Wrth grynhoi, ailddatganodd y Cadeirydd fod yr aelodau'n croesawu'r monitro a'r gwerthuso cyfredol oddi mewn i'r grp Ymchwil a Datblygu, ac edrychai ymlaen at adrodd cyfredol yn y maes hwn. Byddai adroddiadau i'r Pwyllgor yn y dyfodol yn ymdrin â phob un o'r tair rhaglen cronfeydd strwythurol ac yn ymdrin â chynnydd ynghylch gwariant ac yn fwy cyffredinol.

**Eitem 7 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd**

7.1 Cytunodd yr aelodau fod y rhain yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

7.2 Dywedodd Christine Gwyther ei bod yn dymuno rhoi ar gof a chadw ei diolch i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd am gynorthwyo i achub Ledwood Engineering ac arbed swyddi.

7.3 Gofynnodd yr aelodau pa bryd y byddid yn derbyn gwybodaeth bellach ar wariant ym Mae Caerdydd (cam gweithredu heb ei gyflawni 2). Cytunodd y swyddogion i baratoi papur ar gyfer y Pwyllgor yn Ionawr. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**